# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 3ydd 2026 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gwenda Evans (cadeiryddes), Rita Jones, Eilir Rowlands, Gary Thomas, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Eifion Davies, Gwynedd Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Jones, Bethan Thomas, Iolo Evans, Meilir Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**Cynllun Fferm Wynt Foel Fach arfaethedig.**
Croesawyd swyddogion Coriolis Energy a Chadno Communications i'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad ar y prosiect a chyfle i'r cynghorwyr holi cwestiynnau. Gweler ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio isod.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd mis Rhagfyr a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Cafwyd cadarnhad fydd yr arwyddion ar gyrion pentref Glanrafon yn cael eu hail osod yn fuan.
ii) Roedd trefniadau mewn lle i anfon y sweeper ar hyd y B4501 yng Nghwmtirmynach er mwyn clirio llwybr i'r dŵr fynd i lawr y draenau.

b) Cyfoeth Naturiol Cymru – Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr.
Roedd wedi dod i sylw'r clerc fod cyfnod ymgynghori newydd ar hyn o bryd ond nid oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw ohebiaeth swyddogol. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ail anfon y sylwadau a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr yn nodi gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynllun.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro – Maes Fedw, Llanfor, 26/02/26.
ii) Gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro – Cae'r Garreg, Cwmtirmynach, 12/02/26.

b) Canolfan Henblas.
i) Lansiad Car Cymunedol Y Bala a Phenllyn.
ii) Holiadur Digidol.

c) Un Llais Cymru.
i) Polisi Pryderon a Chwynion. Cytunwyd i fabwysiadu'r polisi newydd a'i arddangos ar y wefan.

ch) Llywodraeth Cymru.
i) Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

d) Amrywiol.
i) Cais am fin halen i bentref Sarnau – yn anffodus nid oedd Cyngor Gwynedd yn cyflenwi biniau i leoliadau newydd ac nid oedd yn ymarferol ar hyn o bryd i ail leoli un o'r biniau eraill yno.

v) Ceisiadau Cynllunio
i) C25/0941/04/DT – Cais i godi estyniad deulawr ayyb. Tŷ Cipar, Cwmtirmynach.
Nodwyd pryderon am rhai agweddau o'r cynllun a chytunwyd i nodi y byddai'r Cyngor yn gadael y penderfyniad i swyddogion cynllunio Cyngor Gwynedd.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

ii) Fferm Wynt Foel Fach– ymgynghoriad cyn ymgeisio.
Trafodwyd yr hyn a welwyd yn y diwrnodau agored yn ddiweddar a’r llythyrau a dderbyniwyd gan drigolion lleol. Cytunwyd yn unfrydol i grynhoi’r sylwadau a dderbyniwyd a’u cyflwyno i Coriolis Energy:-
i) Nid ydi lleoliad y datblygiad arfaethedig o fewn yr ardal wedi ei 'rag-asesu' ar gyfer ffermydd gwynt ym mholisi Llywodraeth Cymru 'Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040'.
ii) Orddatblygu ardal wledig cefn gwlad fel Penllyn.
iii) Pryder bydd caniatau’r cynllun yma yn agor y drws i gwmniau eraill gyflwyno prosiectau tebyg.
iv) Y datblygiad yn llawer rhy agos i Barc Cenedlaethol Eryri.
v) Uchder y tyrbinnau.
vi) Pryder bydd y tunelli o goncrit a ddefnyddir yn dinistrio'r draeniad dŵr naturiol.
vii) Pryder byddai’n dinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt. Mae rheolau llym
viii) Yr effaith a’r iechyd oherwydd y micro-blastigau, llygredd, cryndod, is-sain.
ix) Mynediad i’r safle yng Nghwmtirmynach a’r cynydd mewn traffig.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Llywodraeth Cymru.
Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2026-27.

b) Adroddiad Ariannol (Hyd-Rhag 2025).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

c) Derbyniadau.
Grant Cronfa Gwynedd Ni - £9000

ch) Taliadau.
Cytunwyd i dalu’r canlynol –
Sion Jones (man waith trwsio & clirio).

d) Ceisiadau Ariannol.
Cafwyd geisiadau gan Urdd Cylch Meirionnydd, Marie Curie, Llen y Llannau, Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel a Hosbis Ty’r Eos. Cytunwyd i’w trafod gyda gweddill o’r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i’r clerc basio’r cwynion canlynol ymlaen i’r adrannau perthnasol:-
i) Tyllau ar yr A494 ger Ty'n Fedw, Bethel a gyferbyn a mynedfa Tomen Gastell, Llanfor.
ii) Carreg wedi dod i ffwrdd o'r wal rhwng Cynlas a Thŷ Nant, Cefnddwysarn.
iii) Tyllau ar yr B4401, Llandderfel.
iv) Angen bin halen newydd ger Henblas, Llandderfel gan fod yr un presennol wedi cael ei hitio gan gerbyd.
v) Cwynion na chafodd y ffyrdd gwledig eu graeanu pan oedd eira drwg ym mis Ionawr.
vi) Draen wedi malu ym mhentref Sarnau a dŵr yn llifo i lawr am yr A494.
vii) Sbwriel angen ei glirio o gwmpas y goleuadau traffig ar yr A494, Bethel.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 3ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Derfel.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..